

## PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 1 MAWRTH 2022

Yn  
bressenol: Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd),  
Y Cynghorwyr Cunnah, Hopkins, Joyce, Melbourne, Molik a/ac Singh

Aelodau Cyfetholedig: Karen Dell'Armi (Cynrychiolydd Rhiant-  
Llywodraethwr)

Mia John (Cynrychiolydd Cyngor Ieuenctid Caerdydd)

### 119 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Patricia Arlotte (Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig) Dywedodd Carol Cobert (cynrychiolydd Eglwys yng Nghymru) y byddai'n rhaid iddi adael am 6.00 oherwydd ymrwymiad arall.

Gwnaeth y Cadeirydd ddatganiad mewn perthynas ag erthygl WalesOnline yn cyfeirio at sylwadau a wnaed mewn cyfarfod blaenorol ynghylch polisi Llywodraeth Cymru o gael gwared ar elw o'r sector gofal plant. Dywedodd y Cadeirydd fod sylwadau a wnaed ganddo ef a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant wedi'u tynnu allan o'u cyd-destun ac nad oeddent ychwaith yn erbyn y cynnig, fodd bynnag, mae'n fater cymhleth a sensitif sy'n gofyn am gynllunio gofalus.

Anfonodd y Cadeirydd a'r Aelodau eu meddyliau a'u gweddïau at bobl a chenedl yr Wcráin.

### 120 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â'r Cod Ymarfer Aelodau.

### 121 : GWASANAETH MABWYSIADU CENEDLAETHOL CYMRU: TREFNIADAU CYNNAL

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey (Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd), Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau) a Deborah Driffield (Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Plant) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Hinchey i wneud datganiad, pan amlinellodd rywfaint o'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor y cynigir bod Caerdydd yn parhau gyda threfniadau cynnal, ac mae pob un o'r 21 Awdurdod Lleol arall wedi cadarnhau eu bod yn cefnogi Caerdydd i barhau yn y rôl gynnal. Gofynnwyd i bob un o'r 22 awdurdod ystyried a ydynt am gymryd rhan yn y cyd-bwyllgor, er efallai na fydd yn cael ei greu tan ar ôl yr Etholiadau Llywodraeth Leol.

Mae Caerdydd wedi cyflawni'r rôl cynnal ers 2014 ond oherwydd y trefniadau cyd-bwyllgor mae'n bwysig ei bod yn fwy ffurfiol. Bydd gan y Swyddog Monitro rôl ac mae'n bwysig bod yr holl ofynion angenrheidiol yn cael eu cwblhau.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar gost y trefniadau cynnal. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod model adennill costau yn cael ei ddefnyddio. Yr egwyddor yw na fydd Caerdydd yn ysgwyddo'r gost nac yn cael unrhyw elw o ddarparu'r gwasanaeth. Mae proses adolygu flynyddol wedi'i gweithredu, yn enwedig o ran cyllid, a bydd Caerdydd yn gallu mynd ag unrhyw orwariant neu danwariant i'r Cyd-bwyllgor.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi eu sylwadau a'u harsylwadau a gasglwyd yn ystod y ffordd ymlaen.

122 : DIWEDDARIAD Y GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey (Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd), Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau), Deborah Driffield (Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Plant), Graham Robb (Cadeirydd Annibynnol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid) ac Angharad Thomas (Rheolwr Gweithredol, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Hinchey i wneud datganiad, pan amlinellodd rywfaint o'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Gwahoddwyd Graham Robb (Cadeirydd Annibynnol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid) i wneud datganiad ac fe ddiweddarodd ef y Pwyllgor ar y broses Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Cafwyd sesiynau briffio gyda staff, bwrdd a phartneriaid, arolygon staff, pobl ifanc a gwirfoddolwyr. Bydd Cyfarfod Panel Eiriolaeth o fewn yr wythnosau nesaf, bydd y dadansoddiad achos yn dechrau ar 21 Mawrth; 28 Mawrth yw'r wythnos adolygu oddi ar y safle; 29 Mawrth yw Sesiwn Ffocws y Bwrdd; yn ystod wythnos 4 Ebrill bydd cyfarfod gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Bydd y dyddiad cyhoeddi ym mis Gorffennaf, gyda chynllun gweithredu Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi y Bwrdd yn cael ei ryddhau tua diwedd y mis hwnnw.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau;

- Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynghylch ffigurau'r rhai sy'n newydd-ddyfodiaid ac a yw'r gostyngiad yn ostyngiad cynaliadwy neu'n ostyngiad oherwydd Covid. Mae swyddogion yn cynghori bod yna dderbyn bod Covid wedi effeithio ar bob person ifanc; y rheswm dros y gostyngiad fodd bynnag yw oherwydd y Biwro, mae wedi parhau i redeg trwy gydol y pandemig. Mae wedi caniatáu dull mwy cydgyssylltiedig o ymdrin â phobl ifanc cyn iddynt ddod yn newydd-ddyfodiaid. Ni fydd yn gynaliadwy, ond nid ydym yn gwybod eto'r effaith emosiynol y mae Covid wedi'i chael ac a effeithiodd hynny ar eu cyfranogiad.
- Cyfeiriodd yr aelodau at dwf camfanteisio'n rhywiol ar blant a chamfanteisio'n droseddol ar blant a sut y gall yr holl bartneriaid weithio i gael y ffigurau hynny i lawr. Cyfeiriwyd yr aelodau at y cyflwyniad Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio, sy'n ddull

partneriaeth gyfan o ddelio â thwf y camfanteisio hynny. Addysg; y Gwasanaeth Ieuencid; ac mae'r Heddlu, ynghyd â phartneriaid eraill i gyd yn rhan o'r pos hwnnw. Mae'r gwaith yn parhau; mae grŵp dewisol gydag is-grwpiau yn bwydo i mewn iddo. Mewn perthynas ag ymyrraeth wedi'i thargedu iau; er mai 10 yw'r oed cyfrifoldeb, rhaid cydnabod bod ymddygiad yn dechrau ar lefel iau. Nid yw ymyrraeth yng Nghaerdydd yn dechrau tan 10 oed ond os yw person ifanc yn dangos mathau penodol o ymddygiad, gellir ystyried y darn cywir o waith gyda'r plant hynny. Y gobaith wrth i Covid godi mae'r tîm yn gallu darparu rhai gweithdai wedi'u targedu mewn ysgolion cynradd. Mae'n rhaid iddo fod yn ddull partneriaeth.

- Trafododd yr aelodau amrywiaeth ac anghymesuredd a chyfeiriodd at y ffigyrau mewn perthynas â llwythi achosion; 83% gwyn ac 87% gwryw a sut i gael y plant hynny yn ôl ac ymgysylltu. Cyngorodd swyddogion bwysigrwydd cael dealltwriaeth wirioneddol o'r bobl ifanc; pam nad ydynt yn yr ysgol a sut i'w cael yn ôl i'r ysgol? Mae angen i'r gwasanaeth fod mor amrywiol â'r bobl ifanc sy'n ymwneud â'r system.
- Edrychodd yr Aelodau ar nifer y troseddau a gyflawnwyd pan fydd pobl ifanc yn aildroseddu, a holwyd a oes unrhyw wahaniaethau neu unrhyw fewnwelediad i hynny. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau, er bod nifer y plant sy'n aildroseddu yn cynyddu, bod llai o droseddau. Mae ychydig yn parhau i aildroseddu. Mae'r Aelodau'n nodi bod rhai ohonynt wedi troseddu ac aildroseddu o fewn cyfnod mor fyr fel nad oedd modd gwneud unrhyw waith gyda'r plant hynny yn y cyfamser. Yn sicr, mae mwy o waith i'w wneud yn y maes hwnnw.
- Pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd y gwasanaeth yn gweithio gyda'r holl bartneriaid a dywedwyd wrthynt nad un gwasanaeth yw'r model SAFE, mae'n gwasanaeth pob partner.
- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad mewn perthynas â'r cyfrifiad difrifol. Eglurodd swyddogion fod sgorio difrifoldeb yr Heddlu yn mynd o 1 – 8 ond mae sgorio Cyfiawnder Ieuencid yn mynd o 1 – 4. Byddai 4 yn arwyddocaol, er enghraifft llofruddiaeth, tra bod 2 neu 3 yn cipio'r mwyafrif o droseddau - ymosodiadau i gyhuddiadau niwed corfforol difrifol hefyd.

#### PENDERFYNWYD:

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi eu sylwadau a'u harsylwadau a gasglwyd yn ystod y ffordd ymlaen.

#### 123 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd yr Aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd gan nodi nifer o broblemau y cytunai'r Cadeirydd fyddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai'n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, at yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion perthnasol.

#### 124 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau brys.

## 125 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor yw dydd Mawrth 8 Mawrth 2022 am 4.30 pm drwy MS Teams.

## 126 : PERFFORMIAD CHWARTER 3 Y GWASANAETHAU PLANT 2021/2022

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey (Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd), Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau) a Deborah Driffield (Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Plant) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Hinchey i wneud datganiad, ac amlinellodd rywfaint o'r wybodaeth a'r data yn yr adroddiad.

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod ymdrechion yn cael eu gwneud i wella amseroldeb asesiadau ac ymweliadau. Mae ymgeiswyr ar gyfer swydd Rheolwr Gweithredol newydd yn cael eu cyfweld. Disgwylir i ddeiliad y swydd newydd ddarparu cadernid wrth ddeall a monitro amseroldeb asesiadau. Gwellwyd prydlondeb Cynadleddau ac Adolygiadau Amddiffyn Plant

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

Roedd yr Aelodau'n meddwl tybed a oedd unrhyw achos i bryderu ynghylch y targed arbed effeithlonrwydd cyllidebol ac a oedd unrhyw gynlluniau i liniaru'r pryderon hynny yn y tymor byr. Dywedodd swyddogion fod pryder bob amser oherwydd bod rhai ffactorau allan o reolaeth y Cyngor. Mae cyfran o'r codiad wedi'i chlustnodi ar gyfer gallu adeiladu o fewn systemau monitro contractau a sicrhau ansawdd. Mae Rheolwr Gweithredol wedi'i nodi a fydd yn goruchwyllo monitro contractau a chynllunio dilyniant ar gyfer plant mewn lleoliadau a reoleiddir.

Roedd yr aelodau'n dymuno gwybod a oedd pwysau capasiti yn lleihau. Dywedodd swyddogion fod y pwysau yn dal i fod yn ddwys. Mae adolygiad system wedi'i gomisiynu i ymchwilio i ffyrdd o gynyddu effeithlonrwydd. Bydd y capasiti ychwanegol yn gwella cynllunio a goruchwyllo. Mynegodd swyddogion hyder y bydd pwysau'n lleihau.

Roedd yr Aelodau'n pryderu y gallai dychwelyd i weithio wyneb yn wyneb arwain at gollu staff a rhai o'r arbedion effeithlonrwydd o weithio o bell. Dywedodd swyddogion ei bod yn bwysig cadw effeithlonrwydd o ostyngiad yn yr amser a dreulir yn teithio i gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Yn yr un modd, mae'n bwysig i weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso gael cyfarfodydd wyneb yn wyneb â theuluoedd a thimau er mwyn dysgu. Mae angen sicrhau cydbwysedd gyda gweithio cyfunol. Mae staff sy'n byw yn Llundain neu ogledd Lloegr wedi cynnal adolygiad o bell. Mae rhai staff asiantaeth wedi bod yn amharod i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac nid ydym wedi'u cadw yn eu rolau. Cynigir gweithio hyblyg ond nid yw'n bosibl i weithwyr cymdeithasol weithio o bell bob amser.

Trafododd yr aelodau gydberthynas swyddi gwag gyda chyfraddau cadw

staff. Cyfeiriodd swyddogion at graff ar dudalen 51 o'r pecyn agenda a oedd yn nodi canlyniad net gweithwyr cymdeithasol yn dechrau ac yn gadael y gwasanaeth. Bydd data'r gweithlu sy'n nodi pa mor hir y mae gweithwyr cymdeithasol wedi bod gyda'r gwasanaeth yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y data a gyflwynwyd ar dudalen 39 o'r pecyn agenda yn nodi canran y plant sy'n aildroseddu o fewn 6 mis i'w trosedd flaenorol, a mynegwyd awydd i weld data tebyg am gyfnodau o 12 mis a 24 mis.

Mynegodd yr Aelodau farn nad oedd y Dangosyddion Perfformiad yn yr adroddiad yn dangos sut mae plant yn elwa o benderfyniadau sy'n cael eu gwneud. Roedd swyddogion yn cydnabod pwysigrwydd mesur y gwahaniaethau a wnaed i blant a theuluoedd ond dywedodd eu bod yn anodd adrodd arnynt gan eu bod yn ansoddol. Bydd swyddogion yn ymchwilio i weld a oes ffyrdd o wneud hynny, ond ni fyddent yn dangosyddion perfformiad ac ni fyddent yn cael eu hadrodd yn genedlaethol.

Holodd yr aelodau pam y gosodwyd targed swyddi gwag Gweithiwr Cymdeithasol ar 24% ac nid sero. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y teimlwyd bod y bydd methu yn anochel o osod y targed rhy isel a bod targed mwy realistig wedi'i awgrymu. Roedd y targed ar un adeg wedi bod yn 33% ac er ei bod yn iawn gosod her roedd yn rhaid bod yn realistig. Mae'r sefyllfa'n gyfnewidiol a byddai sero yn afrealistig. Byddai angen staff asiantaeth bob amser. Nododd adborth gan staff welliant mewn morâl a oedd yn glod i'r diwylliant newidiol a grëwyd gan swyddogion. Mae'r targed o swyddi gwag ar gyfer y flwyddyn nesaf wedi'i leihau ond mae'n bwysig bod targedau yn realistig at ddibenion gosod cyllidebau. Mae angen staff asiantaeth ar gyfer eu gwydnwch a'u profiad. Mae rhai staff asiantaeth wedi bod gyda'r gwasanaeth ers amser maith.

Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth ynghylch pam roedd absenoldeb salwch yn cynyddu. Mynegodd swyddogion foddhad bod y gwasanaeth o fewn y targed. Bu cynnydd bach oherwydd cymryd darpariaeth gwasanaeth uniongyrchol yn ôl. Ni all staff ddod i mewn i'r gwaith os ydyn nhw'n sâl, ac mae gwahaniaeth wedi bod oherwydd Covid. Mae salwch yn cael ei fonitro'n agos.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch yr amserlen o ran cynnal asesiadau a chwestiynu pam nad oedd y targed yn 100% yn hytrach na 75%. Dywedodd swyddogion fod yr amserlen yn 42 diwrnod. Roedd y targed yn un realistig ond roedd yn cael ei gyflawni. Mae swyddogion yn ystyried trosglwyddo'r cyfrifoldeb am asesiadau i ardaloedd.

Gofynnodd yr Aelodau am esboniad o'r ffigurau ar gyfer plant oedd yn cael eu cofrestru a'u dadgofrestru ac yn dymuno gwybod beth oedd yr effaith ar y plant. Dywedodd swyddogion nad oedd modd ymweld â phlant yn ystod Covid ac nad oeddent yn mynychu'r ysgol nac yn cael eu gweld gan ymwelwyr iechyd. O ganlyniad bu cynnydd yn y nifer sy'n cael eu cofrestru oherwydd pryderon ynghylch eu diogelwch. Yna bu adolygiad a oedd yn galluogi llawer i gael eu camu. Mynegodd swyddogion y gobaith bod cofrestru wedi cael effaith gadarnhaol ar y plant.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o'r ffigur o 41% o blant oedd wedi'u cofrestru ar gyfer cam-drin emosiynol ac roeddent yn dymuno gwybod sut y gwnaed y penderfyniad ar gyfer cofrestru. Dywedodd swyddogion fod pwyslais wedi newid gyda chanolbwyntio ar yr effaith ar blant cam-drin domestig heb anaf corfforol. Mae gwaith wedi cael ei wneud ar gael ei hysbysu am drawma a'r niwed y mae trawma parhaus drwyddo, er enghraifft, esgeulustod emosiynol yn ei wneud i blant. Byddai ymddygiadau sy'n awgrymu niwed emosiynol yn cael eu codi mewn atgyfeiriadau ac asesiadau cynnar, trwy ysgolion ac ymwelwyr iechyd, ac yna yn cael eu hymchwilio gan weithwyr cymdeithasol. Mae'r penderfyniad i gofrestru neu beidio yn cael ei wneud yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant.

Nododd yr aelodau fod lleoliadau allanol yn gostwng wrth aros gyda pherthynas yn cynyddu. Dywedodd swyddogion y bu gwaith parhaus o ran y gostyngiad mewn lleoliadau rheoledig o gymharu â phlant sy'n aros gydag aelodau'r teulu. Bu cynnydd mawr iawn mewn gofal perthynas yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae angen newid sylweddol drwyddo draw.

Roedd yr aelodau am wybod a ellid gwneud mwy cyn cofrestru plant am gam-drin emosiynol. Dywedodd swyddogion nad yw'r Gwasanaethau Plant yn gallu atal cam-drin emosiynol. Fodd bynnag, gellir gwneud gwaith o amgylch dull yr ysgol gyfan, ymyrraeth gynnar ac iechyd meddwl plant a babanod. Mae yna fentrau ynghylch magu plant a fydd yn cael effaith fawr ar les emosiynol plant.

**PENDERFYNWYD:** Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi eu sylwadau a'u harsylwadau a gasglwyd yn ystod y ffordd ymlaen.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.30 pm